Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Monitro Cychod Pysgota Cymru (WVMS)

*Ffurflen Gais- Canllaw Sut i Lenwi*

# Cynnwys


Gwybodaeth ..... 3

Cofrestru ..... 3

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ..... 4

Tudalen Mewngofnodi ym Mhorth y Llywodraeth ..... 4

RPW Ar-lein: Hafan ..... 5

Tudalen Ffurflenni ..... 7

Cais i Gynllun Monitro Cychod Cymru (WVMS): Dechrau Arni ..... 8

Parhau â’ch Cais / Dechrau Eto ..... 9

Cyflwyniad ..... 12

Hysbysiad Preifatrwydd ..... 13

Pwy sy’n Gymwys ..... 14

Manylion eich Cwch ..... 15

Tudalen Gyflwyno: Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..... 17

Cyflwyno: Datganiadau ac Ymrwymiadau ..... 19

Tudalen Gyflwyno: Cyflwyno ..... 20

Ar ôl cyflwyno cais yn llwyddiannus ..... 21

Beth sy'n digwydd nesaf? ..... 21



Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru


Hawlfraint y Goron © 2025


ISBN: 978-1-83625-943-5

# Gwybodaeth

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi help gam wrth gam i chi i lenwi ffurflen gais Cynllun Monitro Cychod Cymru (WVMS).
Mae Llywodraeth Cymru yn llunio'r canllawiau yma yn Gymraeg ac yn Saesneg fel sy'n ofynnol o dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.
Os ydych yn dod ar draws problemau neu'n methu â gweld ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Cofrestru

Er mwyn gwneud cais i Gynllun Monitro Cychod Cymru (WVMS), rhaid i chi yn gyntaf gofrestru cyfrif ar Borth y Llywodraeth ac ar Daliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein).
Ceir Canllawiau ar sut i gofrestru yn y nodiadau o'r enw 'RPW Ar-lein: Sut i Gofrestru' (https://www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru). Ceir Canllawiau ar sut i agor eich cyfrif RPW ar-lein yn y nodiadau o'r enw 'RPW Ar-lein: Dechrau arni' (https://www.llyw.cymru/rpw-ar-lein-dechrau-arni).

**Noder:** Dilynwch y cyfarwyddiadau uchod yn ofalus. Pan fyddwch yn creu eich cyfrif RPW Ar-lein, rhaid ichi ddewis 'Cwsmer' ar gyfer eich math o gyfrif, ac wedyn dewis, 'rwy'n bwriadu ymgeisio am grantiau neu wneud hawliadau' neu 'rwy'n bwriadu ymgeisio neu hawlio a rheoli fy CPH'. Wedyn gofynnir ichi lenwi rhagor o fanylion. Os na fyddwch wedi dewis un o'r opsiynau hyn, fyddwch chi ddim yn cael hawlio os bydd eich cais i'r WVMS yn llwyddiannus.


Er mwyn bwrw ymlaen a dilyn y camau yn y canllawiau hyn, bydd yn rhaid ichi yn gyntaf greu cyfrif Porth y Llywodraeth a chyfrif RPW Ar-lein.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

## Tudalen Mewngofnodi ym Mhorth y Llywodraeth


Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein gan nodi’ch ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm 'Mewngofnodi'.




Os ydych chi'n cael problemau neu os nad ydych yn gallu agor eich cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi yn eich cyfrif ar-lein, bydd ‘Tudalen Hafan’ RPW Ar-lein yn ymddangos.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5




# RPW Ar-lein: Hafan

Yn yr adran ‘Dechrau ffurflen’ yng ngwaelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw’r cynllun rydych am wneud cais amdano. Dyma ble fydd ffurflen gais y WVMS tan dyddiad cau’r ffenest ymgeisio.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5




Neu gallwch glicio ar y tab ‘Ffurflenni’ ar dudalen hafan RPW Ar-lein, fel y gwelwch isod:





Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen ‘Ffurflenni’.

I newid yr iaith unrhyw bryd, cliciwch ar y botwm Cymraeg / Saesneg yng nghornel dde uchaf y bar gwybodaeth RPW Ar-lein. Drwy hynny, byddwch yn dewis yr iaith y bydd ffurflen WVMS yn ymddangos ynddi.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Tudalen Ffurflenni

Ar ôl clicio ar y tab ‘Ffurflenni’, fe welwch y Ffurflenni fydd ar gael ichi eu llenwi.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Cais i Gynllun Monitro Cychod Cymru (WVMS): Dechrau Arni


Cyn dechrau llenwi'r ffurflen gais, darllenwch Ganllawiau'r cynllun WVMS.

Cynllun Monitro Cychod Pysgota Cymru 2025 (WVMS): llyfryn rheolau | LLYW.CYMRU

Dechreuwch drwy glicio ar y botwm 'Dechrau'.

Mae'r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth ichi cyn ichi ddechrau llenwi'ch cais. Mae'n cynnwys dolen i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid rhag ofn y bydd angen help arnoch a'ch manylion fel Cwsmer a'ch Dewisiadau Ar-lein sydd gennym am
Darllenwch y manylion hyn i wneud yn siŵr eu bod yn gywir a'u newid cyn dechrau llenwi'r ffurflen os ydyn nhw'n anghywir.


Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5




# Parhau â'ch Cais / Dechrau Eto

Ar ôl dechrau ar eich cais, gallwch ei adael a mynd yn ôl ato wedyn. Os ydych yn agor cais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, yna gallwch Barhau (botwm glas ar waelod y sgrin) neu Ddechrau Eto trwy glicio ar y ddolen yn y sgrinlun:

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5



Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

CRN:

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 49 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru.**

Cewch ddewis dileu'ch **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru** a llenwir y **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid

Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol


Parhau i weithio ar **Cais Cynllun Monitro Cychod Cymru** a gafodd ei ddiweddaru ar 21/01/2025 am 16:43 gan Charlies Estate Agent

Parhau | Yn ôl

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd

Cofiwch, os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dileu’r holl atebion rydych wedi’u rhoi ac unrhyw wybodaeth y byddwch wedi’i hychwanegu. Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar ‘Ydw’ neu os nad ydych chi, cliciwch ‘Na’ fel sydd ar y sgrin:

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Cyflwyniad

Dyma dudalen y cyflwyniad sy'n rhoi gwybodaeth ichi am y Cynllun.

Mae dolen yng nghornel chwith uchaf y sgrin i'r Canllaw Sut i Lenwi hwn i fynd â chi i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith, fe welwch y gwahanol adrannau. Mae croes goch yn dangos naill ai nad ydych wedi agor yr adran honno eto neu'ch bod wedi gwneud camgymeriad yn yr adran honno. Bydd croes werdd yn dangos eich bod wedi cwblhau'r adran ac nad ydym yn gallu gweld unrhyw gamgymeriadau. Mae botymau llywio ar dop a gwaelod y ffurflen. Hefyd, os hoffech weld copi Saesneg neu Gymraeg, mae botwm i wneud hynny yn y gornel chwith isaf , fel y sgrinlun isod.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar dudalen yr Hysbysiad Preifatrwydd, rydym yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru’n delio â’ch data.




Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.






Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru


Hawlfraint y Goron © 2025



ISBN: 978-1-83625-943-5

# Pwy sy’n Gymwys

Dyma’r dudalen sy’n cynnwys cwestiynau i ofyn ichi gadarnhau’ch bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.




Os mai’ch ateb i’r cwestiwn ‘Ydych chi eisoes wedi prynu’r ddyfais ar gyfer y cwch a ddisgrifir yn y cais hwn?’ yw Ydw, fe welwch ragor o gwestiynau ichi eu hateb.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

Rhaid cadarnhau pryd y gwnaethoch chi brynu’r ddyfais.

**Pwysig: nid yw dyfeisiau gafodd eu prynu cyn 19/12/24024 yn gymwys am arian.**

Bydd y data sylfaenol ar y dudalen hon yn cael ei archwilio’n awtomatig a bydd negeseuon am wybodaeth neu wallau yn ymddangos ar ôl ichi bwyso ‘Safio’ neu ‘Nesaf’.


Pwy sy'n gymwys
Yn ôl
Safio
Nesaf
*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â * .*
Rwy'n cadarnhau'r canlynol:
Fi yw perchennog / rhanberchennog cwch masnachol trwyddedig sydd ar gofrestr fflyd bysgota'r DU ac sy'n cael ei weinyddu a'i drwyddedu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru ar ddyddiad cyflwyno'r cais hwn.*
Rhaid ateb y cwestiwn hwn.
Rwy'n gwneud cais am arian i brynu dyfais ar gyfer cwch sy'n 11.99m neu lai o hyd.*
Rhaid ateb y cwestiwn hwn.
Ydych chi eisoes wedi prynu'r ddyfais ar gyfer y cwch a ddisgrifir yn y cais hwn?*
Ydw
Nac ydw
Ni fyddwch yn gymwys am arian os prynoch chi'ch dyfais cyn 19/12/2024.
Cadarnhewch y dyddiad pryd gwnaethoch chi brynu'r ddyfais.*
dd/mm/bbbb
Rhaid ateb y cwestiwn hwn.


Os oes neges gwall yn ymddangos er bod y manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Safio’ i ddiweddaru'r ffurflen a datrys unrhyw hen negeseuon gwall. Wrth fynd drwy'r ffurflen, mae’n syniad da i glicio ar y botwm ‘Safio’ ar ôl i chi lenwi'r ateb yr holl gwestiynau ar y sgrin.

# Manylion eich Cwch


Yn y rhan hon, byddwn yn gofyn ichi roi manylion y cwch sy’n rhan o’r prosiect.

I’r cwch fod yn gymwys, byddwch yn berchennog neu’n rhan-berchennog arno, bydd ar gofrestr fflyd bysgota’r DU a bydd Llywodraeth Cymru’n ei weinyddu a’i drwyddedu o borthladd yng Nghymru.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5





Rhaid ateb yr holl gwestiynau ar y dudalen.




Bydd y data sylfaenol ar y dudalen hon yn cael ei archwilio'n awtomatig a bydd negeseuon am wybodaeth neu wallau yn ymddangos ar ôl ichi bwyso 'Safio' neu 'Nesaf'.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5




Os oes neges gwall yn ymddangos er bod y manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Safio’ i ddiweddaru'r ffurflen a datrys unrhyw hen negeseuon gwall. Wrth fynd drwy'r ffurflen, mae’n syniad da i glicio ar y botwm ‘Safio’ ar ôl i chi ateb yr holl gwestiynau ar y sgrin.


Ar ôl i chi wirio bod y manylion yn gywir, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.





## Tudalen Gyflwyno: Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae’r sgrin hon yn rhoi crynodeb o'r manylion rydych wedi’u rhoi.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5




Mae’n tynnu’ch sylw hefyd at y camgymeriadau sydd yn y ffurflen.





Rhaid i chi gywiro pob camgymeriad cyn cyflwyno’ch cais. Ar ôl i chi ddarllen y crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Cyflwyno: Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae’r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth y mae’n rhaid i chi ei darllen, a chyfrifoldebau ac ymrwymiadau y mae’n rhaid i chi eu derbyn cyn cyflwyno’ch cais.




Rhaid i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio’r blwch i gadarnhau eich bod chi wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.





Cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’ ar ôl i chi wneud hynny.




Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5

# Tudalen Gyflwyno: Cyflwyno

I gyflwyno’ch cais i’r WVMS, cliciwch ar y botwm ‘Cyflwyno’.




Ar ôl cyflwyno'r cais, fe welwch dudalen yn cadarnhau’ch bod wedi’i gyflwyno . Gallwch ei phrintio a'i rhoi yn eich ffeiliau trwy bwyso’r botwm **Printio’r Sgrin hon** neu cliciwch y **gadael.**





Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru


Hawlfraint y Goron © 2025


ISBN: 978-1-83625-943-5

# Ar ôl cyflwyno cais yn llwyddiannus

Bydd crynodeb o’ch cais i’r WVMS yn cael ei ychwanegu at y dudalen ‘Negeseuon’ ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl ‘Dogfennau a ddaeth i law i RPW’. Cofiwch wirio’r wybodaeth yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges yn nodi eich pryderon. Gwnewch hyn cyn gynted ag y gwelwch fod gwybodaeth yn anghywir.

Os ydych chi'n cael problemau neu os nad ydych chin gallu agor ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

**Mae tri chanlyniad posibl wrth werthuso ceisiadau:**

1. Nid yw eich cais yn gymwys ar gyfer y grant. Bydd llythyr yn cael ei anfon atoch yn nodi'r rhesymau pam y cafodd eich cais ei wrthod.
2. Mae eich cais yn gymwys i'w ystyried ond nid yw wedi cael ei gymeradwyo i gael Dyfarniad Grant. Byddwn yn esbonio wrthych y rhesymau pam nad oedd eich cais yn llwyddiannus.
3. Mae eich cais yn gymwys ac wedi'i gymeradwyo i gael Dyfarniad Grant. Bydd llythyr Dyfarnu Grant yn cael ei roi i chi ar-lein yn nodi telerau ac amodau'r Grant. Gofynnir i chi gadarnhau’ch bod yn ei dderbyn fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau a’r amodau. Bydd y Dyfarniad Grant hefyd yn rhoi'r awdurdod i chi brynu'r eitem a nodir yn eich Dyfarniad Grant.

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2025
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
ISBN: 978-1-83625-943-5